

Art Fund_
Amgueddfa'r
Flwyddyn
2027

# Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr

#AmgueddfarFlwyddyn

The Box, Plymouth, Amgueddfa'r Flwyddyn, Enillydd, 2026.
Llun: © David Levene / Art Fund 2026

# Contents


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wobr | 3 |
| Pam gwneud cais? | 4 |
| Pwy all wneud cais? | 5 |
| Meini prawf beirniadu | 6 |
| Ffocws ar gyfer 2027 | 7 |
| Eich cais | 8 |
| Amserlen | 13 |
| Telerau ac amodau | 14 |






The V&A Storehouse, Amgueddfa'r Flwyddyn, rhestr fer, 2026. Llun: © David Levene / Art Fund 2026

# Ynglŷn â'r wobr

Gwobr Amgueddfa'r Flwyddyn gan Art Fund yw'r wobr fwyaf yn y byd i amgueddfeydd: mae'n dathlu amgueddfeydd, orielau a lleoliadau hanesyddol sy'n ysbrydoli ac yn cysylltu pobl ledled gwledydd Prydain. Mae'r wobr yn amlygu'r holl waith mae amgueddfeydd yn ei wneud bob dydd, yn annog mwy o bobl i ymweld ac i ymgysylltu â chelf a chasgliadau, ac yn dathlu'r hyn sy'n gwneud ymweliad ag amgueddfa yn brofiad gwych.

Ers 2013, mae'r wobr wedi hyrwyddo sefydliadau sy'n dangos rhagoriaeth, arloesedd, creadigrwydd a dychymyg mewn gwahanol ffurf. Gall cyrraedd y rhestr fer ac ennill gwobr Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund fod yn drawsnewidiol: mae'r sefydliadau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn y gorffennol wedi defnyddio'r gydnabyddiaeth i gryfhau eiriolaeth, datgloi cyfleoedd codi arian, cryfhau partneriaethau ac adeiladu rhwydweithiau parhaol.

Bob blwyddyn, mae panel annibynnol o feirniaid yn llunio rhestr fer o bum sefydliad eithriadol ac yn dewis un enillydd i dderbyn gwobr gwerth £120,000. Mae'r pedwar sefydliad arall yn derbyn gwobrau o £20,000 yr un.

Mae pob amgueddfa ar y rhestr fer hefyd yn cael cefnogaeth bwrpasol gan Art Fund drwy gydol ymgyrch y wobr, gan gynnwys sylw yn y wasg, cymorth marchnata a chyfleoedd cydweithio cyffrous er mwyn lledaenu eu straeon ymhellach.

**Os yw eich sefydliad yn gweithio mewn ffyrdd beiddgar a phwrpasol, rydyn ni'n awyddus i glywed gennych. Darllenwch ymlaen er mwyn dysgu mwy am y wobr, yr hyn rydyn ni'n chwilio amdano, a sut i wneud cais.**



Amgueddfa Fitzwilliam, Caergrawnt, Amgueddfa'r Flwyddyn, rhestr fer, 2026.
Llun: © David Levene / Art Fund 2026. Gweithiau celf: © Gillian Wearing. Cedwir pob hawl, DACS 2026.

# Pam gwneud cais?

*"Mae'r morâl yn fewnol wedi bod yn wych ac mae wedi uno'r sefydliad – mae gwaith caled pawb yn cael ei gydnabod, ac mae hyn yn golygu llawer i'r staff a'r gwirfoddolwyr"* – un o'r enillwyr, 2026

Mae cymryd rhan yng ngwobr Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund yn gyfle i ddathlu a myfyrio ar yr hyn mae eich sefydliad wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn. O siapio eich cais i rannu eich stori os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, mae'r broses wedi'i chynllunio i fod yn werth chweil, yn ddefnyddiol ac i roi hwb i'ch tîm cyfan. Ochr yn ochr â'r wobr ariannol, bydd yr enillwyr yn dod yn rhan o sgwrs genedlaethol am werth a phŵer amgueddfeydd heddiw.

*"Mae pob cyfle wedi cryfhau ein cysylltiadau ag arianwyr, partneriaid a sefydliadau lleol, gan greu gwaddol parhaol ar gyfer yr amgueddfa."* – un o'r enillwyr, 2023

Mae sefydliadau sydd wedi cyrraedd y rhestr yn y gorffennol wedi gweld cynnydd yn nifer eu hymwelwyr, proffil cyhoeddus cryfach a chefnogaeth o'r newydd gan randdeiliaid. Mae nifer wedi gweld bod y wobr yn agor drysau ar gyfer codi arian, eiriolaeth a phartneriaethau newydd, gan greu manteision ymhell ar ôl cael eu henwebu. Gallwch ddysgu mwy am effaith cymryd rhan yn y wobr gan amgueddfeydd sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn flaenorol ar dudalen we ein rhaglen.

Bydd tîm Art Fund yn gweithio'n agos gyda chi i sicrhau eich bod yn cael y mwyaf o gymryd rhan yn y cynllun, sy'n cynnwys sylw yn y wasg genedlaethol, cynnwys, a chyfleoedd marchnata pwrpasol.



Yr Oriel Genedlaethol, Llundain, Amgueddfa'r Flwyddyn, rhestr fer, 2026.
Llun: © David Levene / Art Fund 2026

# Pwy all wneud cais?



Mae gwobr Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund ar agor i bob amgueddfa, oriel, lleoliad hanesyddol, llyfrgell neu archif yng ngwledydd Prydain sydd â gofod cyhoeddus i bobl ymweld a phrofi'r gelf weledol neu gasgliadau eraill.

Rydyn ni'n awyddus i dderbyn enwebiadau gan sefydliadau o holl wledydd Prydain, waeth beth fo maint na phwnc eich sefydliad.

## Cyn gwneud cais, gwnewch yn siŵr eich bod yn diwallu'r meini prawf canlynol:

- Rhaid eich bod wedi'ch lleoli ym Mhrydain ac eich bod naill ai'n amgueddfa, yn oriel, yn lleoliad hanesyddol, yn llyfrgell neu'n archif sydd â gofod cyhoeddus i bobl ymweld a phrofi'r gelf weledol neu gasgliadau eraill.
- Does dim angen i chi fod â'ch casgliad eich hunan, ond dylai fod gennych arddangosfa neu raglen gelf weledol bwrpasol.
- Rhaid i'ch cais ganolbwyntio ar un lleoliad (hyd yn oed os ydych chi'n rhan o grŵp o amgueddfeydd).
- Rhaid i'ch sefydliad weithredu yn ôl safonau arferion gorau a/neu fod â hanes cryf o gyflawni gweithgarwch cyhoeddus o ansawdd uchel. Gallech ddangos hyn drwy gynlluniau achredu (fel y rhai a reolir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr), geirda gan bartneriaid, prosiectau llwyddiannus yn y gorffennol, neu wobrau rydych chi wedi'u hennill. Os ydych chi'n amgueddfa heb achrediad, efallai y byddwn ni'n ceisio cyngor gan bartneriaid dibynadwy o'r sector (fel MDUK) er mwyn deall eich sefydliad a'ch anghenion yn well.
- Rhaid i'r gweithgarwch mae'ch cais yn canolbwyntio arno fod wedi digwydd yn bennaf rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr 2026.
- Ar gyfer ceisiadau sy'n canolbwyntio ar arddangosfeydd sy'n ailagor, rhaid i'r ailagor fod wedi digwydd erbyn 1 Gorffennaf 2026, er mwyn caniatáu casglu o leiaf 6 mis o ddata ymwelwyr.

## Yn anffodus, nid ydym yn gallu derbyn ceisiadau gan:

- Sefydliadau masnachol neu er elw, gan gynnwys Cwmnïau Cyfyngedig Preifat, Cwmnïau Cyfyngedig Cyhoeddus, Cwmnïau Anghyfyngedig, neu Fasnachwyr Unigol.
- Partneriaethau Cyffredinol, Partneriaethau Cyfyngedig, neu Bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig.
- Sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth, drama, dawns a ffurfiau ar gelf y tu allan i'r celfyddydau gweledol.
- Unigolion neu gyrff anghorfforedig yn uniongyrchol (oni bai bod cais yn cael ei gyflwyno gan neu gyda chytundeb ysgrifenedig ffurfiol sefydliad cymwys [fel y disgrifir uchod]).
- Ysbytai ac addoldai.
- Ysgolion neu sefydliadau addysg uwch.
- Grwpiau artistiaid.

# Meini prawf beirniadu



Bob blwyddyn, rydyn ni'n gwahodd panel allanol o feirniaid i adolygu, llunio rhestr fer a phenderfynu ar yr enillydd. Mae'r panel o feirniaid eleni'n cynnwys arbenigwyr o'r sector, arweinwyr diwylliannol ac artistiaid, ac yn cael ei gadeirio gan Jenny Waldman, cyfarwyddwr Art Fund. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gael cyhoeddi enwau'r panelwyr yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Mae'r beirniaid yn ganolog i'r wobr, ac mae pob un yn dod â phrofiad, safbwynt ac arbenigedd unigryw i'r broses. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr hir yn cael cyfle i gael eu cyfweld gan y panel, er mwyn helpu'r beirniaid i benderfynu pa bump sefydliad fydd yn cyrraedd y rhestr fer. Caiff amgueddfeydd ar y rhestr fer eu dewis ar sail cryfder eu cais a sut mae eu gwaith yn dod yn fyw yn ystod y cyfweliadau llunio rhestr fer ar-lein.

Bydd pob amgueddfa ar y rhestr fer yn croesawu'r beirniaid yn ystod ymweliad grŵp, sy'n rhoi cyfle i'r panel ddeall yn well sut mae'r sefydliad yn gweithio, beth mae'n ei gynnig i ymwelwyr, a'r ffyrdd mae cynulleidfaoedd a chymunedau'n cael eu cynnwys drwy eu casgliadau neu eu rhaglenni. Ar ôl ymweld â phob un o'r pum sefydliad ar y rhestr fer, bydd y beirniaid yn penderfynu ar yr enillydd. Gan ddilyn dull cyfannol, byddan nhw'n ystyried y cais gwreiddiol, y cyfweliad ar gyfer llunio rhestr fer a'r ymweliad cyn penderfynu pa sefydliad ddylai gael ei goroni'n Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund.

Bydd arweinydd rhaglen y wobr yn gweithio'n agos gyda chi drwy gydol y broses, gan eich helpu i gynllunio taith sy'n rhoi argraff glir a chymhellol i'r beirniaid o'ch sefydliad, casgliadau a rhaglen, eich pobl a'ch effaith.



Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich, Amgueddfa'r Flwyddyn, rhestr fer, 2026.
Llun: © David Levene / Art Fund 2026

# Ffocws ar gyfer 2027

Os ydych chi'n teimlo bod eich sefydliad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gyfer y wobr, darllenwch ymlaen i ddarganfod beth rydyn ni'n chwilio amdano yn 2027.

## Ysbrydoli cysylltiad

Mae gwobr Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund yn cael ei phweru gan aelodau'r cynllun Tocyn Celf Cenedlaethol, sy'n credu y dylai celf, diwylliant a threftadaeth fod ar agor i bawb. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n hyrwyddo'r rôl hanfodol mae amgueddfeydd yn ei chwarae wrth greu dyfodol mwy disglair a chysylltiedig i bawb.

Mae'r wobr, sydd bellach yn ei 14eg flwyddyn, yn dathlu amgueddfeydd sy'n gweithio gydag uchelgais, gofal a dychymyg. Er bod y sector yn parhau i ymdopi â heriau mewn tirwedd sy'n newid yn barhaus, rydyn ni'n cydnabod bod amgueddfeydd yn llefydd sy'n cynnig gobaith a phosibilrwydd. Maen nhw'n gallu cynnig croeso cynnes, llawenydd, cyfleoedd i ddysgu a myfyrio, a chysylltiad. Ar eu gorau, maen nhw'n helpu pobl i weld eu hunain, ei gilydd a'r byd yn wahanol.

Eleni, rydyn ni'n gwahodd ceisiadau gan sefydliadau sy'n ysbrydoli cysylltiadau. Mae amgueddfeydd, orielau, lleoliadau hanesyddol, llyfrgelloedd ac archifau yn fannau dinesig hanfodol lle mae pobl yn dod at ei gilydd i ddysgu am y syniadau, y llefydd a'r straeon sy'n siapio eu bywydau.

**Rydyn ni am glywed gan ymgeiswyr sy'n dod â chymunedau ynghyd ac yn cysylltu cynulleidfaoedd â'r syniadau, y llefydd a'r straeon sy'n bwysig iddyn nhw drwy eu gweithiau celf, casgliadau a rhaglenni.**



Amgueddfa Fitzwilliam, Caergrawnt, Amgueddfa'r Flwyddyn, rhestr fer, 2026. Llun: © David Levene / Art Fund 2026

# Eich cais



## Sut i wneud cais

Ar gyfer 2027 bydd angen i chi lenwi Ffurflen Gais, sydd ar gael i'w lawrlwytho o'n tudalen Cael Cyllid. Mae rhan gyntaf y ffurflen gais yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol, ochr yn ochr â gwybodaeth ariannol a cheisiadau am ddata arall (gan gynnwys ystadegau ymwelwyr, gwybodaeth am eich casgliad neu raglen, a'ch effaith ar gynulleidfaoedd).

Yn ystod ail ran y cais fydd eich cyfle i ddisgleirio. Fel yr amlinellir ar y dudalen nesaf, byddwn yn gofyn i chi ymateb i'r cwestiwn, 'Pam mai chi yw Amgueddfa'r Flwyddyn 2027?' Drwy eich ymatebion rydyn ni am ddeall beth sy'n gwneud eich sefydliad yn unigryw, beth rydych chi wedi'i gyflawni a pham mae eich gwaith yn haeddu cael ei gydnabod fel Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund.



Yr Oriel Genedlaethol, Llundain, Amgueddfa'r Flwyddyn, rhestr fer, 2026. Llun: © David Levene / Art Fund 2026

## Sut i ddweud eich stori

Gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno eu hachos ynghylch pam eu bod yn credu mai nhw yw 'Amgueddfa'r Flwyddyn 2027', drwy ddull 'dweud, clywed, gweld'.

Byddwn yn gofyn i chi ymateb i'r cwestiwn 'Pam mai chi yw Amgueddfa'r Flwyddyn 2027?' yn y ffyrdd canlynol:

1. Yn ysgrifenedig, dywedwch wrthon ni pam y dylech gael eich ystyried ar gyfer y wobr eleni. Dylech fframio eich ateb drwy gysylltu eich prosiectau neu weithgareddau â ffocws cais eleni – 'ysbrydoli cysylltiad'. Ni ddylai'r ymatebion fod yn fwy na 1,000 o eiriau.

2. Rydyn ni am glywed gan leisiau eraill ar draws eich sefydliad, er enghraifft staff, gwirfoddolwyr, artistiaid rydych chi wedi gweithio gyda nhw, neu bartneriaid cymunedol, eich rhesymeg dros wneud cais am y wobr eleni a sut mae eich gwaith yn sefyll allan. Defnyddiwch ffocws y cais i lywio eich atebion a thrin hyn fel cyfle i ehangu ar eich ymateb ysgrifenedig. Gallwch gyflwyno'r ymatebion hyn ar ffurf vox-pops wedi'u recordio ymlaen llaw (dim mwy na thri i gyd gydag uchafswm o ddwy funud yr un).

3. Rhowch flas i'r beirniaid o sut olwg sydd ar ymweliad nodweddiadol yn eich sefydliad, naill ai drwy ddetholiad o ddelweddau neu ffilm fer (uchafswm o bedair munud o hyd). Os byddwch yn dewis cyflwyno delweddau, dylech eu casglu mewn cyflwyniad PowerPoint neu ffeil PDF.

Rydyn ni'n cydnabod bod pob sefydliad yn wahanol a bydd ganddynt adnoddau amrywiol. Er ein bod yn eich annog i gyflwyno deunyddiau clyweledol ar gyfer cwestiynau b ac c, gellir addasu hyn i gyd-fynd â'r ffordd mae eich sefydliad yn gweithio – er enghraifft, gellid cyflwyno recordiad ar Teams neu Zoom ar gyfer y vox-pops, a gellid darparu cyflwyniad PowerPoint treigl o ddelweddau ar gyfer cwestiwn 3. Ni fydd ceisiadau'n cael eu beirniadu ar sail gwerth y cynhyrchiad, ond mae'n bwysig i'r panel beirniadu allu gweld a chlywed mwy am eich sefydliad drwy gyfryngau clyweledol.

Er mwyn cwblhau eich cais, bydd angen y canlynol:

- Deunydd ategol dewisol i ddangos tystiolaeth o'ch atebion i'r cwestiwn ymgeisio (rhaid i'r rhain fod yn berthnasol ac ni ddylech gynnwys mwy na thri).

  Gallai'r rhain gynnwys:

  - ystadegau/adroddiadau ymwelwyr
  - astudiaethau achos
  - adroddiadau gwerthuso

- Detholiad o ddelweddau cydraniad uchel (dim mwy na phump) yn dangos tu allan a thu mewn eich sefydliad. Dylech wneud yn siŵr bod y caniatâd priodol gan y rhain i'w defnyddio gan drydydd partïon.

- Llythyr o gefnogaeth gan eich cyfarwyddwr neu gadeirydd yn cadarnhau eu dymuniad i'r sefydliad gael ei ystyried ar gyfer gwobr Amgueddfa'r Flwyddyn 2027 Art Fund ac yn cytuno i'n telerau ac amodau.

## Rhestr wirio ar gyfer y cais

Er mwyn eich helpu i gasglu popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich cais, cyfeiriwch at y templed rhestr wirio ar gyfer y cais, y bydd angen i chi ei lenwi a'i gyflwyno fel rhan o'ch cais.

## Cyflwyno'ch cais ar ôl ei gwblhau

Dylech anfon copïau o'r ffurflen gais a'r rhestr wirio ar ôl eu cwblhau (ynghyd â deunydd ategol arall) i programmes@artfund.org, a chynnwys arweinydd y rhaglen, Emma Mills, emills@artfund.org yn y llinell CC, **erbyn 5pm ddydd Iau 7 Ionawr 2027.** Fel pwnc eich neges e-bost, dylech nodi: 'Cais [Enw'ch sefydliad] ar gyfer Amgueddfa'r Flwyddyn 2027'.

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau
- Templed rhestr wirio ar gyfer y cais wedi'i chwblhau, sy'n cynnwys manylion a dolenni i'r ymatebion clyweledol
- Deunydd ategol dewisol ar gyfer eich cais
- Detholiad o ddelweddau cydraniad uchel (dim mwy na phump) yn dangos tu allan a thu mewn eich sefydliad.
- Llythyr o gefnogaeth gan eich Cyfarwyddwr neu Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Os hoffech drafod eich cais neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses ymgeisio a sut i gyflwyno eich deunyddiau, yna anfonwch y rhain at arweinydd y rhaglen, Emma Mills, drwy e-bostio emills@artfund.org

## Sut caiff ceisiadau eu hasesu

Mae ceisiadau'n mynd drwy broses ddwy ran cyn i'n panel arbenigol o feirniaid gadarnhau'r rhestr fer. Isod mae canllaw i'r hyn y gallwch ei ddisgwyl os caiff eich cais ei ystyried.

- Unwaith y bydd eich cais a'r holl ddeunyddiau gofynnol eraill yn ein cyrraedd, bydd aelod o'r tîm Rhaglenni yn anfon neges e-bost atoch i gadarnhau.
- Ar ôl y dyddiad cau, caiff pob cais ei adolygu'n ofalus gan banel mewnol a fydd yn llunio rhestr hir.
- Bydd y panel a luniodd y rhestr hir a'r beirniaid yn cytuno pwy fydd yn cael mynd ymlaen i'r cam cyfweliad. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr hir yn cael gwybod dyddiad ac amser y cyfweliad o leiaf bythefnos ymlaen llaw.
- Os na fydd eich cais yn cael ei ystyried ymhellach ar y cam hwn, byddwch yn cael gwybod drwy e-bost. Oherwydd y nifer uchel o geisiadau a dderbyniwn, ni fyddwn yn gallu rhoi adborth oni bai eich bod yn gofyn am hynny.
- Yn y cyfweliad llunio rhestr fer, bydd dau neu dri chynrychiolydd o'r sefydliad sy'n gwneud y cais yn cwrdd â'r panel beirniadu ar-lein a gofynnir cyfres o gwestiynau iddynt (bydd y cwestiynau'n cael eu hanfon atoch ymlaen llaw gydag o leiaf bythefnos o rybudd).
- Ar ôl y cyfweliadau, bydd y beirniaid yn cytuno ar y rhestr fer o bum sefydliad, ac os byddwch yn llwyddiannus, bydd rheolwr prosiect y wobr yn cysylltu â chi i drafod y camau nesaf.
- Os byddwch yn aflwyddiannus, byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost a gallwch ofyn am adborth pellach os oes angen.

## Beth sy'n digwydd os cyrhaeddwch y rhestr fer

- Yn unol â'n telerau ac amodau, bydd angen i sefydliadau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer lofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth.
- Gwahoddir sefydliadau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer i fynychu gweithdy cydweithio a gynhelir ar-lein, cyn cyhoeddi'r rhestr fer (dyddiad i'w gadarnhau). Bydd hwn yn gyfle i gwrdd â thîm Art Fund a gweddill eich carfan, yn ogystal â chael rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch.
- Bydd rheolwr prosiect y wobr yn gweithio'n agos gyda'ch prif gyswllt i'ch paratoi ar gyfer cyhoeddi'r rhestr fer a'r ymgyrch.

## Cyhoeddi'r rhestr fer

- Cyhoeddir y rhestr fer ym mis Ebrill 2027 (dyddiad i'w gadarnhau). Byddwn yn gweithio'n agos gyda chi a'ch tîm cyfathrebu i wneud y mwyaf o gyfleoedd i'r wasg yn ystod y cyfnod hwn ac yn rhoi pecyn briffio i chi ymlaen llaw.



The Box, Plymouth, Amgueddfa'r Flwyddyn, Enillydd, 2026. Llun: © David Levene / Art Fund 2026

## Yr ymgyrch

- Rydyn ni am i amgueddfeydd sydd wedi cyrraedd y rhestr fer gael cymaint o werth â phosib o gyfnod yr ymgyrch, felly yn ogystal â gweithgarwch Art Fund rydyn ni'n annog sefydliadau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer i gynllunio eu gweithgarwch eu hunain yn ystod y cyfnod hwn, gyda chefnogaeth gan Art Fund lle bo'n ddefnyddiol.
- Fel rhan o'r ymgyrch hon, byddem yn gofyn i chi gynnig mantais arbennig i ymwelwyr sydd â Thocyn Celf Cenedlaethol, o ddyddiad cyhoeddi'r rhestr fer hyd at gyhoeddi'r enillydd. Gallai hyn fod yn ostyngiad pellach ar bris mynediad neu'n gynnig arbennig yn eich siop neu gaffi.
- Yn ystod yr amser hwn, bydd y beirniaid yn ymweld â'r pum sefydliad ar y rhestr fer fel grŵp, sy'n eu helpu i wneud eu penderfyniad terfynol ynghylch pwy ddylai ennill y wobr. Bydd hyn yn digwydd rhwng mis Mai a mis Mehefin; bydd dyddiadau'n cael eu pennu gyda'r sefydliadau sydd ar y rhestr fer.

## Cyhoeddi'r enillydd

- Gwahoddir pob sefydliad sydd wedi cyrraedd y rhestr fer i fynychu'r seremoni wobrwyo ym mis Mehefin (nifer y gwahoddiadau i'w gadarnhau) lle bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi. Bydd manylion pellach, gan gynnwys y dyddiad a'r lleoliad, yn cael eu cadarnhau maes o law.
- Bydd mwy o fanylion am y cyhoeddiad yn cael ei gyhoeddi'n agosach at yr amser. Bydd pecyn briffio yn cael ei gynnig i amgueddfeydd sydd ar y rhestr fer i'w helpu i baratoi ar gyfer y digwyddiad a'r cyhoeddiad.

## Gwaddol a gwerthuso

- Bydd pob sefydliad sydd ar y rhestr fer yn cymryd rhan mewn proses werthuso, yn unol â rhaglenni ariannu eraill Art Fund.

# Amserlen

- Mae ceisiadau'n agor am 9am, ddydd Mercher 7 Hydref 2026 ac yn cau am 5pm, ddydd Iau 7 Ionawr 2027.
- Bydd cyfweliadau ar gyfer llunio rhestr fer yn digwydd gyda beirniaid naill ai ddiwedd mis Chwefror neu ddechrau mis Mawrth 2027.
- Bydd cyhoeddiad y rhestr fer a dechrau'r ymgyrch yn digwydd ym mis Ebrill (dyddiad i'w gadarnhau) 2027.
- Bydd ymweliadau'r beirniaid yn digwydd rhwng diwedd mis Mai a dechrau mis Mehefin 2027, ac mae'r dyddiadau hynny i'w cytuno gyda'r amgueddfeydd sydd wedi cyrraedd y rhestr fer.
- Bydd seremoni cyhoeddi/gwobrwyo'r enillydd yn digwydd ddiwedd mis Mehefin 2027 (dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau).



The V&A Storehouse, Amgueddfa'r Flwyddyn, rhestr fer, 2026. Llun: © David Levene / Art Fund 2026

# Telerau ac amodau

Fel gyda holl weithgarwch ein rhaglen, rydyn ni'n gofyn i ymgeiswyr gytuno i delerau ac amodau fel rhan o'u cais. Mae'r rhain yn helpu i sicrhau bod y wobr yn glir, yn deg ac yn gydweithredol i bawb sy'n rhan ohoni.

Rydyn ni'n gofyn i sefydliadau sydd ar y rhestr hir:


- fod yn bresennol mewn cyfweliad ar-lein i gwrdd â'r beirniaid ac i drafod eich cais.
- gymryd rhan mewn gwerthusiad byr.

Rydyn ni'n gofyn i sefydliadau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer:

1. cydweithio â ni fel rhan o fenter ar y cyd i ddathlu a hyrwyddo'r rhestr fer. Gall Art Fund ddarparu cyngor a chefnogaeth gyda materion y wasg a marchnata yn ôl yr angen.
2. llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth sy'n amlinellu ein disgwyliadau a meysydd cyfrifoldeb ar y cyd rhwng Art Fund a'r holl ymgeiswyr terfynol.
3. cael eich cynrychioli yn ymweliadau'r beirniaid ym mis Mai-Mehefin a digwyddiad cyhoeddi'r enillydd ym mis Mehefin 2027.
4. cefnogi'r ymgyrch ymgysylltu â'r gynulleidfa drwy gynnig mantais arbennig i ymwelwyr sydd â'r Tocyn Celf Cenedlaethol, o ddyddiad cyhoeddi'r rhestr fer hyd at ar ôl cyhoeddi'r enillydd – bydd y cyfnod hwn a'r manylion yn cael eu pennu mewn sgwrs â thîm marchnata Art Fund. (Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cynnig mynediad am ddim neu am bris gostyngol, neu ostyngiad yn y siop a/neu gaffi.)
5. arddangos deunyddiau print a digidol Art Fund, fel posteri ac asedau digidol, ar y safle ac ar-lein, am hyd yr ymgyrch o leiaf.
6. gweithio ar y cyd â'r sefydliadau eraill sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol i gefnogi ei gilydd a chodi ymwybyddiaeth o waith ei gilydd.
7. gweithio gydag Art Fund i werthuso'r broses wobrwyo a rhoi adborth ar y diwedd i'n helpu i asesu effaith gwobr Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund a gwneud gwelliannau ar gyfer y dyfodol.



Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich, Amgueddfa'r Flwyddyn, rhestr fer, 2026.
Llun: © David Levene / Art Fund 2026




Art Fund_

Cyhoeddwyd mai The Box, Plymouth, oedd enillydd Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund 2026 yn y seremoni wobrwyo a gynhaliwyd yn Cutty Sark, Llundain. © Hydar Dewachi / Art Fund 2026

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch gwneud cais am wobr Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund, cysylltwch â rheolwr prosiect y wobr, Emma Mills, drwy e-bostio emills@artfund.org.

Am ragor o wybodaeth am y wobr, ewch i artfund.org/museum-of-the-year.

Gallwch ddysgu mwy am ein cyfleoedd ariannu, a gwirio pa grantiau rydych chi'n gymwys i wneud cais amdanyn nhw, yma: artfund.org/professional/get-funding.

I gael rhagor o wybodaeth am ymuno â rhwydwaith amgueddfeydd Art Fund, ewch iartfund.org/professional/promote-your-venue.